SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Adroddiad Archwilio Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) 2015-2016

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

© Hawlfraint y Goron 2016 WG27408 ISBN digidol 978 1 4734 5705 8

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol ………………………………………………
2 Cyflwyniad …………………………………………………………...
3 Canfyddiadau'r Archwiliad ……………………………………….. .....
4 Casgliad ……………………………………………………………
5 Atodiadau ……………………………………………………….. 

## 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau mewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl) sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff goruchwyliaeth statudol o fydwragedd ei chyflawni'n unol â'r safonau a bennir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan Erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, y mae ei fanylion wedi eu cyflwyno yn rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Yng Nghymru, cyflawnir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ran gweinidogion Cymru. Mae gan yr AGLl yng Nghymru ddau Swyddog Bydwreigiaeth AGLl a benodwyd i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar ei ran.

**1.2** Canolbwynt cyffredinol goruchwylio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fu sefydlu model goruchwylio newydd a alluogodd yr AGLl a'r byrddau iechyd i gyflawni eu dyletswyddau statudol perthnasol. Y cefndir i'r angen am y model goruchwylio newydd yng Nghymru oedd nodi llawer o risgiau yn y model presennol yn ogystal â niferoedd cynyddol o ymddiswyddiadau a chaniatâd i fod yn absennol ymhlith goruchwylwyr bydwragedd na allent gydbwyso gofynion cynyddol y swyddogaeth â rhai eu swyddi parhaol.

**1.3** Cyflwynwyd y model cyfredol ar 4 Awst 2014, a chyhoeddodd yr AGLl adroddiadau archwilio ym mis Hydref 2014 i nodi'r materion i'w trosglwyddo a'r cynllun gweithredu i symud goruchwyliaeth yn ei blaen. Yn ystod blwyddyn ei weithrediad, mae'r AGLl wedi gallu darparu sicrwydd o fodloni safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth trwy ddangosyddion perfformiad allweddol tri misol, cyfarfodydd monitro a gwerthuso bob dau fis, ac adolygiad llawn gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r holl brosesau archwilio hyn wedi cadarnhau bod yr AGLl yn bodloni'r holl safonau, ac fe'u hadroddwyd yn adroddiad blynyddol ac adroddiad archwilio Awdurdodau Goruchwylio Lleol Cymru Gyfan 2014-15.

**1.4** Diben archwiliad blynyddol 2015 -16 yw cadarnhau bod goruchwylwyr bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth o oruchwylio ym mhob bwrdd iechyd yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac i wneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus. Bydd y canfyddiadau archwilio o bob cwr o Gymru yn hysbysu'r cyfeiriad teithio i gefnogi bydwragedd pan gaiff y newidiadau deddfwriaethol eu gwneud i adael goruchwyliaeth statudol.

**1.5** Mae'r AGLl yng Nghymru wedi diwygio a mireinio'r broses ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth yn seiliedig ar gydymffurfiad â Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Cynhaliwyd yr archwiliad trwy ddull tîm gyda mewnbwn cymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Nod y broses archwilio oedd asesu pa un a oedd timau goruchwylwyr bydwragedd yn cydymffurfio â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir bod safonau "wedi'u bodloni", "heb eu bodloni" neu fod "angen gwella". Pan na chaiff safon ei bodloni, caiff cynllun gweithredu ei gytuno'n ffurfiol â'r AGLl ac fe'i darperir yn unol ag amserlen wedi ei chytuno.

**1.6** Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r sefyllfa o ran goruchwyliaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) ar adeg yr archwiliad a rhoi sicrwydd bod y model diwygiedig wedi cael ei gyflwyno'n llawn. Bydd yn cynnig uchafbwyntiau darpariaeth y model goruchwylio cyfredol sydd wedi datblygu goruchwyliaeth i fod yn ddarpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel, prydlon ac effeithiol.

**1.7 Trosolwg**

Ystyriwyd nad oedd y broses archwilio flynyddol a gyflwynwyd yn 2011 yn addas i'r diben mwyach gan fod y goruchwylwyr bydwragedd yn gweithio'n rhan o'r AGLl erbyn hyn. Yn ystod 2014-15, canolbwyntiodd goruchwylwyr bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) a benodwyd i'r model goruchwylio diwygiedig ar ddarparu'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd ym Manyleb Gwasanaeth Diogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol. Cynhaliwyd y pwyslais hwn i wella a dylanwadu ymhellach ar newid arfer. Cafodd cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol ei fonitro drwy'r Grŵp Monitro a Gwerthuso a thrwy Uwch Grŵp Arweinyddiaeth AGIC. Paratowyd adroddiadau tri misol ac fe'u rhannwyd gyda phenaethiaid bydwreigiaeth i fonitro cynnydd ymhellach a mynd i'r afael ag unrhyw heriau i gynnydd.

Er i'r AGLl nodi cydymffurfiad â holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei Adroddiad Blynyddol a'r adroddiad archwilio a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015, mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi argymell y dylai pob bwrdd iechyd gael ymweliad archwilio unigol a chyflwyno'r canfyddiadau mewn adroddiad (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Hydref 2015).

Mae'r AGLl wedi bod yn eglur o'r cychwyn mai nod y broses archwilio yw cefnogi datblygiad parhaus trwy ddenu adnoddau a hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn. Mae'r AGLl yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt i ailgynllunio'r broses archwilio ar gyfer y flwyddyn nesaf gan ei fod o'r farn bod craffu allanol ar yr AGLl yn hanfodol nawr bod y goruchwylwyr yn gweithio'n uniongyrchol i'r AGLl. Gobeithiwn y bydd personél priodol y bwrdd iechyd yn manteisio ar y cyfle i fod yn rhan o'r broses archwilio fel ffordd o roi'r sicrwydd angenrheidiol i wasanaethau mamolaeth, cyfarwyddwyr gweithredol a'r bwrdd bod goruchwyliaeth statudol yn cefnogi'r gwaith o amddiffyn y cyhoedd.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC maes o law yn **www.hiw.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Disgwylir i oruchwylwyr bydwragedd weithio yn unol â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i rymuso bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol gan wella'r broses o amddiffyn y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. Er mwyn hysbysu'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau mamolaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae'r broses ar gyfer archwilio safonau'r AGLl yn defnyddio dull adolygiad gan gymheiriaid yn erbyn holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac yna ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i wirio tystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth penodol yr AGLl, o leiaf un adolygydd lleyg yr AGLl, a goruchwylydd bydwragedd profiadol o fwrdd iechyd cyfagos. Mae hyn yn galluogi dull tîm o archwilio ac yn cynnig cyfle ar gyfer adolygu a meincnodi gan gymheiriaid, yn ogystal â chefnogi rhannu arfer da. Mae cynnwys adolygwyr lleyg yr AGLl yn y tîm yn sicrhau safbwynt y defnyddiwr trwy gydol y broses archwilio, a chroesawyd hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer BIPABM ar 20 a 21 Hydref 2015 fel y cynlluniwyd. Gwahoddwyd personél allweddol i fynychu yn ogystal â thîm goruchwylio'r bwrdd iechyd (**Atodiad A – Rhaglen Archwilio**). Bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal ymweliad pyramid tri misol yn ystod Chwarter 3 i adolygu cynnydd y gwelliannau yn rhan o'r cylch archwiliadau blynyddol. Darparwyd adroddiadau adborth unigol i'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn syth ar ôl yr ymweliad gan nodi meysydd o arfer da neu godi ymwybyddiaeth lle'r oedd angen datblygiad.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, Julie Richards, wedi ei chefnogi gan oruchwylydd bydwragedd profiadol, Lindsey Hilldrup o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ac adolygydd lleyg yr AGLl, Lindsey Phillips, a'r goruchwylydd bydwragedd dan hyfforddiant, Angharad Oyler.

**2.5** Dechreuodd yr ymweliad archwilio gyda chyflwyniad trosolwg cryno gan Julie Richards, ac fe'i dilynwyd gan gyflwyniad PowerPoint y goruchwylwyr bydwragedd yn rhoi trosolwg o BIPABM, gweithgareddau goruchwylio, a llwyddiannau'r goruchwylwyr bydwragedd o ran arfer da. Hefyd, rhoddodd yr ymweliad archwilio gyfle i gyfarfod a rhannu gwybodaeth am oruchwyliaeth gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cyswllt, y Pennaeth Bydwreigiaeth, y Fydwraig Risg, goruchwylwyr bydwragedd, bydwragedd, bydwragedd dan hyfforddiant, a defnyddwyr gwasanaeth (**Atodiad B – Mynychwyr**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

### Crynodeb o ganfyddiadau archwiliad yr AGLl – risg a gwireddu manteision

Bodlonwyd <u>holl</u> safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan y tîm goruchwylwyr bydwragedd, ac amlygwyd maes i'w wella ar gyfer yr AGLl

| **Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol** | | |
|---|---|---|
| **Safon AGLl / Bydwragedd Berthnasol** | **Risg / Rheolaeth Allweddol** | **Canlyniad *Bodlonwyd, Ni Fodlonwyd, Angen Gwella*** |
| **Rheol 4: Hysbysu am Fwriad i Ymarfer** | Cyflwynir gwybodaeth gywir a Hysbysiadau o Fwriad i Ymarfer yn flynyddol neu ar gyfer gweithwyr cyflogedig newydd cyn i fydwragedd ddechrau ymarfer<br><br>Caiff cofnodion cronfa ddata AGLl cywir eu cwblhau ar gyfer bydwragedd sy'n gadael y sefydliad | **Bodlonwyd** – roedd tystiolaeth o ddychweliadau misol ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau o Fwriad i Ymarfer ar gyfer dechreuwyr newydd a chwblhau ar gyfer bydwragedd sy'n gadael y sefydliad |
| **Rheol 6: Cadw Cofnodion** | Mae'r bydwragedd yn cydymffurfio â systemau a ddyluniwyd i storio cofnodion clinigol yn gywir ac yn ddiogel am 25 mlynedd | **Bodlonwyd –** roedd tystiolaeth yn y mannau clinigol bod proses i gofnodion clinigol gael eu storio'n ddiogel am 25 mlynedd |
| **Rheol 8: Goruchwylydd Bydwragedd** | Caiff goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant eu recriwtio a'u cefnogi'n briodol ar ôl cwblhau'r rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn llwyddiannus | **Bodlonwyd –** cefnogwyd y goruchwylydd bydwragedd ar ôl cwblhau'r rhaglen baratoi, gyda chynllun preceptoriaeth ar waith i gefnogi datblygiad fel goruchwylydd bydwragedd newydd ei benodi. Cynhaliwyd proses ddethol yn ddiweddar ar gyfer rhaglen yr hydref, yn unol â chanllawiau cenedlaethol swyddogion bydwreigiaeth AGLlau y DU |
| **Rheol 9: Adnoddau priodol yn unol â'r gymhareb a argymhellir** | Mae cymarebau goruchwylwyr bydwragedd yn dal i gyd-fynd â'r gymhareb a argymhellir o un goruchwylydd bydwragedd i 15 bydwraig<br><br>Mae gan y goruchwylwyr bydwragedd adnoddau digonol i'w cefnogi yn eu swydd | **Bodlonwyd –** ceir adnoddau digonol i gyd-fynd â'r gymhareb a argymhellir o un goruchwylydd bydwragedd i 15 bydwraig. Caiff y goruchwylwyr bydwragedd eu cefnogi'n dda i weithio ym mhob adran yn y bwrdd iechyd.<br><br>**Gwelliant a Argymhellwyd i'r AGLl.** Uwchgyfeiriodd y tîm goruchwylwyr bydwragedd o ran yr heriau parhaus y maent yn eu hwynebu gyda chymorth gweinyddol effeithlon a phriodol gan yr AGLl, sy'n effeithio ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth fel |

| | | |
|---|---|---|
| | | goruchwylydd bydwragedd |
| **Rheol 9: Cydymffurfiad â'r Adolygiad Goruchwylio Blynyddol** | Cynhelir Adolygiad Goruchwylio Blynyddol ar gyfer pob bydwraig i gynnig tystiolaeth o sut y mae pob bydwraig wedi bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal ei chofrestriad bydwreigiaeth | **Bodlonwyd –** roedd cydymffurfiad â'r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol yn 100% ar adeg yr ymweliad archwilio. Mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd i'w gymeradwyo am sicrhau 100% ym mhob adolygiad cerdyn sgorio tri misol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf |
| **Rheol 10: Proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd** | Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cynnal ymchwiliadau goruchwylio mewn ffordd agored, deg a phrydlon<br><br>Mae goruchwylwyr bydwragedd yn cynorthwyo bydwragedd i gwblhau argymhellion perthnasol ar gyfer myfyrio, cynlluniau gweithredu lleol neu raglenni ymarfer yr AGLl | **Bodlonwyd –** cynhaliwyd ymchwiliadau goruchwylwyr bydwragedd mewn ffordd agored, deg a phrydlon yn gyffredinol, gyda chefnogaeth gan oruchwylwyr bydwragedd lleol i fodloni argymhellion perthnasol |

## 3.1 Y ddarpariaeth o oruchwyliaeth effeithiol

Mae AGLl Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o oruchwylwyr bydwragedd i sicrhau bod gan yr holl fydwragedd sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9 rheolau a safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[1] yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn fwy nag 1:15 fel rheol, ond mae'n rhaid iddi, fel isafswm, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 16 o oruchwylwyr bydwragedd llawn amser yn weithredol, ac roedd 1,786 o fydwragedd wedi hysbysu'r AGLl am eu bwriad i ymarfer, gan roi cymhareb Cymru gyfan o 1:11. O ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, roedd 300 o fydwragedd yn weithredol a 2.2 goruchwylydd bydwragedd cyfwerth ag amser cyflawn, gan roi cymhareb ddiwygiedig o 1:12.

### 3.1.1 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddewis, ymddiswyddiad a chaniatâd i fod yn absennol

Ar ôl rhoi'r model ar waith, roedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd 2.2 cyfwerth ag amser cyflawn yn cynnwys tri goruchwylydd bydwragedd. Cwblhaodd un o'r goruchwylwyr bydwragedd ei chyfnod rota ym mis Awst 2015, a dychwelodd i'w swydd barhaol. Cafodd ei holynu gan fyfyriwr paratoi goruchwylwyr bydwragedd sydd wrthi'n cael ei chefnogi gan

[1] Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)

BIPABM i gyflawni cyfnod preceptor am un diwrnod yr wythnos. Rhagwelir y bydd y myfyriwr paratoi goruchwylwyr bydwragedd yn cael ei phenodi fel goruchwylydd bydwragedd ym mis Tachwedd 2015, pan fydd yn ymuno â'r tîm goruchwylwyr bydwragedd am dri diwrnod yr wythnos.

Cynhaliodd yr AGLI broses ddethol ar gyfer y rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd olaf yn cychwyn yn ystod hydref 2015, a chafwyd un ymgeisydd ar gyfer BIPABM sy'n cael ei chefnogi i gyflawni'r rhaglen. Ceir un darpar oruchwylydd bydwragedd hefyd, a fydd yn dechrau'r swyddogaeth ar rota ym mis Chwefror 2016. Yn gyffredinol, bydd hyn yn sicrhau adnoddau goruchwylwyr bydwragedd digonol ar gyfer cynllun rota tan fis Mawrth 2017, wrth ddisgwyl cyfarwyddyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ran amserlen ar gyfer y newidiadau i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol.

### 3.1.2 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd

Mae Rheol 9[2] yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd, ac mae'n ofynnol bod gan bob bydwraig oruchwylydd bydwragedd penodol y mae'n cyfarfod â hi o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer adolygiad goruchwylio blynyddol. Cadwyd y gyfradd gyfartalog o gydymffurfiad â'r cyfarfodydd adolygiad goruchwylio blynyddol yn 100% trwy gydol blwyddyn archwilio 2014-15. 100% oedd y cydymffurfiad cyfredol ag adolygiadau goruchwylio blynyddol ar adeg yr archwiliad, a dylid llongyfarch y tîm goruchwylwyr bydwragedd ar ei waith parhaus i gynnal lefel uchel o gydymffurfiad.

Mae'r AGLI yn annog i adolygiadau goruchwylio blynyddol gael eu cwblhau'n electronig, a chaiff y profformas eu storio yng nghronfa ddata genedlaethol yr AGLI wedyn. Roedd yr archwiliad o storio cofnodion papur yn dangos cydymffurfiad cryf â'r safonau gofynnol, ac roedd barn y bydwragedd o'r broses adolygiadau goruchwylio blynyddol yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd hyn yn cynnwys pa un a oedd y broses o werth iddynt ai peidio, ac a roddwyd digon o amser a phreifatrwydd ar gyfer y broses. Mae monitro'r cydymffurfiad â'r broses adolygiadau goruchwylio blynyddol wedi bod yn elfen bwysig o'r paratoad ar gyfer cyflwyno'r model cyfredol. Mae'r AGLI wedi cydnabod yr angen i sicrhau nad oedd goruchwylwyr bydwragedd sy'n gweithio ar ffurf cylch yn etifeddu gwaith ychwanegol a bod cofnodion goruchwylwyr bydwragedd mewn cyflwr addas ar gyfer trosglwyddo gyda gwybodaeth gyfredol a pherthnasol pan fydd goruchwylwyr bydwragedd yn gadael y swyddogaeth.

Nodwyd nifer o heriau o ran goruchwyliaeth grŵp yn ystod archwiliad 2014/15, sef:

- sicrhau y gall pob bydwraig fynychu sesiwn goruchwyliaeth grŵp
- sicrhau bod bydwragedd o wahanol dimau yn bresennol ym mhob goruchwyliaeth

[2] Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion i oruchwylydd bydwragedd.

grŵp

- sicrhau dull cyson gan oruchwylwyr ledled Cymru

Roedd yr holl fydwragedd a gyfwelwyd yn ystod y broses archwilio wedi mynychu sesiwn goruchwyliaeth grŵp. Roeddent yn gadarnhaol am y broses goruchwyliaeth grŵp ar y cyfan, er bod llawer wedi cael profiad ohoni unwaith yn unig yn ystod cyflwyniad cynnar y model newydd, ac nid oeddent wedi mynychu eu sesiwn ar gyfer eleni. Roedd llawer wedi cymryd rhan mewn grŵp a oedd yn cynnwys bydwragedd â gwahanol lefelau o brofiad ac sy'n gweithio mewn gwahanol amgylcheddau, a chanfuwyd bod hyn yn gadarnhaol ar y cyfan. Codwyd cryn dipyn o bryderon am y broses ail-ddilysu, er ei bod yn ymddangos bod y rhain yn seiliedig ar ddiffyg gwybodaeth ar y cyfan, o holi ymhellach. Bydd angen rhagor o godi ymwybyddiaeth o ofynion ailddilysu ymhlith bydwragedd er mwyn eu sicrhau bod y broses yn ofyniad estynedig o arfer cyfredol i raddau helaeth.

Ers cyflwyno'r model newydd, darperir rota ar-alwad goruchwylwyr bydwragedd 24 awr Cymru gyfan i bob bydwraig sy'n ymarfer yn ardal yr AGLI. Mae hyn yn cynnig mynediad 24 awr at oruchwylydd bydwragedd ac yn sicrhau bod goruchwylydd bydwragedd ar gael i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth i gynnig arweiniad a chefnogaeth (y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012). Darperir rhif canolog ar gyfer cysylltu, a chaiff pob cysylltiad, boed gan ddefnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r cyhoedd neu fydwragedd, eu cofnodi mewn fformat SBAR (fformat sy'n cofnodi sefyllfa, cefndir, asesiad ac argymhellion ar gyfer unrhyw fater). Caiff y tueddiadau a'r themâu eu crynhoi'n fisol, a darparwyd adroddiad chwech misol i bob Pennaeth Bydwreigiaeth ym mis Ebrill 2015. Bu 155 o alwadau i rif ar-alwad 24 awr Cymru gyfan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r rhain, mae 27 wedi bod o gysylltiadau o fewn BIPABM. Mae'n ymddangos bod y galwadau'n briodol yn gyffredinol, a rhennir mwyafrif y cysylltiadau SBAR gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd i gymryd camau dilynol yn ôl yr angen.

Canfu'r archwiliad ffôn o gyfraddau ymateb ar-alwad a gynhaliwyd gan adolygwyr lleyg yr AGLI ym mis Ionawr 2015 fod pedwar o'r mannau clinigol yn BIPABM wedi darparu'r rhif ar-alwad pan gysylltwyd â nhw drwy'r switsfwrdd. Cynhaliwyd prawf dilynol o'r gwasanaeth ar-alwad yn rhan o broses archwilio flynyddol yr AGLI, a chanfu hwn nad oedd dau o'r switsfyrddau'n darparu rhif cyswllt Cymru gyfan fel mater o drefn. Mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol wedi rhoi sylw cyflym i'r canfyddiadau hyn, a bydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o rif ar-alwad Cymru gyfan.

Adolygwyd amlygrwydd cyhoeddus goruchwylwyr bydwragedd yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys adolygiad o hysbysfyrddau, cyfryngau cymdeithasol, gwybodaeth ar y wefan, a chysylltu â rhifau cyffredinol y bwrdd iechyd i geisio cael mynediad at oruchwylydd bydwragedd. Nodwyd y cyfleoedd canlynol i wella o ran ymgysylltiad cyhoeddus ac

amlygrwydd goruchwylwyr bydwragedd:

- Gwefan y bwrdd iechyd – mae'n eithaf anodd dod o hyd i wybodaeth am oruchwyliaeth, a byddai dolen i'r daflen 'Ydyn ni'n Esgor ar Wasanaeth Da?' yn ddefnyddiol. Mae chwilio am 'Supervision' ar y wefan yn cynnig dolen at gylchlythyr hen iawn, a dylid newid y ddolen hon

- Nid oes unrhyw wybodaeth am oruchwyliaeth ar dudalen Facebook y bwrdd iechyd, a cheir cyfle yma i hyrwyddo goruchwyliaeth ymhellach. Er bod hysbysfyrddau gwybodaeth mewn gwahanol fannau, byddai'n bosibl gwneud yr hysbysfyrddau'n fwy amlwg ac yn fwy deniadol ym mhob ardal famolaeth

- Ni chanfuwyd unrhyw daflenni 'Ydyn ni'n Esgor ar Wasanaeth Da?' mewn unrhyw rannau cyhoeddus o'r ysbytai, a gellid gwneud y rhain ar gael yn fwy eang

- Mae'r posteri ar draws yr ymddiriedolaeth ar gyfer adborth defnyddwyr cyffredinol yn amlwg iawn trwy gydol y cyfleusterau yr ymwelwyd â nhw, ac yn cynnig cyfle cadarn i hyrwyddo goruchwylwyr bydwragedd trwy ychwanegu manylion at y posteri hyn mewn ardaloedd mamolaeth perthnasol

Mae swyddogion bydwreigiaeth yr AGLI yn cyfarfod bob tri mis, gyda Phennaeth Bydwreigiaeth BIPABM a thîm goruchwylwyr bydwragedd lleol, i adolygu cydymffurfiad â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddefnyddio cerdyn sgorio tri misol. Mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol yn cynnal cyfarfodydd misol gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth i sicrhau cyfathrebiad dwyffordd eglur ar bob agwedd ar y swyddogaeth oruchwylio. Mae'r AGLI yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad gyda goruchwylwyr o bob cwr o Gymru. Er mai prif ddiben y cynulliad misol hwn yw rheoli cydymffurfiad â'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y fanyleb gwasanaeth, mae hefyd yn galluogi goruchwylwyr bydwragedd i adeiladu tîm cydlynus a ffurfio rhwydwaith cefnogol. Cynigiodd yr ymgysylltiad â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI gyfle i gynnig cyngor a chymorth ychwanegol i oruchwylwyr bydwragedd o ran materion gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i amddiffyn y cyhoedd yn ogystal â chaniatáu'r AGLI i oruchwylio goruchwylwyr bydwragedd yn cynllunio a gweithredu eu cynlluniau gwaith parhaus.

## 3.2 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth a safbwynt adolygwyr lleyg yr AGLI

Cymerodd yr adolygydd lleyg ran lawn yn y broses archwilio, ac roedd ganddi ddiddordeb arbennig mewn deall safbwyntiau menywod a'u teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth ac adeiladu ar ganfyddiadau archwiliad 2014-15. Roedd yr archwiliad hwn wedi

canolbwyntio'n benodol ar dri maes: profiadau a bodlonrwydd menywod a oedd wedi cysylltu â goruchwylydd; hygyrchedd goruchwylwyr i fenywod a'u teuluoedd; ac effeithiolrwydd goruchwyliaeth grŵp a datblygiad proffesiynol parhaus.

Siaradodd yr adolygydd lleyg ag 16 o fenywod (a'u teuluoedd mewn rhai achosion) yn ystod yr archwiliad, yn y clinig cynenedigol, y ward esgor, yr Uned dan Arweiniad Bydwragedd, a wardiau cynenedigol mewn dau ysbyty. Mae'r ymwybyddiaeth o oruchwylwyr bydwragedd ymhlith menywod a'r swyddogaeth y gallant ei chyflawni i gynorthwyo menywod yn dal i fod yn isel, a dim ond un o'r 16 o fenywod oedd yn adnabod y term 'goruchwylydd bydwragedd'. O ystyried y diffyg gwybodaeth hwn am oruchwyliaeth ymhlith y menywod a'r teuluoedd y siaradwyd â nhw yn ystod yr archwiliad hwn, ni wnaed unrhyw asesiad o fodlonrwydd menywod a gysylltodd â goruchwylydd. Yn ddiddorol, siaradwyd â naw o fenywod yn ystafell aros y clinig cynenedigol, lle'r oedd hysbysfwrdd goruchwylwyr bydwragedd hynod amlwg, ac eto nid oedd yr un ohonynt yn adnabod y term.

Mynegodd bob menyw/teulu y siaradwyd â nhw ar y wardiau yn ystod yr archwiliad fodlonrwydd gyda'r gofal yr oeddent wedi ei dderbyn, gan gynnwys y rhai a oedd yn gysylltiedig â genedigaethau risg uchel. Hefyd, roedd yr holl fannau clinigol yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr archwiliad yn lân, yn daclus ac yn cynnwys digon o offer priodol.

Nid oedd Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth BIPABM ar gael i fynychu'r archwiliad, ond adolygwyd cofnodion cyfarfodydd diweddar y pwyllgor, a ddatgelodd fod goruchwylwyr bydwragedd yn cymryd rhan ymarferol yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Datgelodd trafodaethau gyda'r cyngor iechyd cymuned y gellid creu cysylltiadau pellach gyda goruchwylwyr bydwragedd i gynyddu eu hamlygrwydd yn y cyngor iechyd cymuned.

### 3.3 Ymgysylltu â bydwragedd dan hyfforddiant

Yn rhan o dystiolaeth yr archwiliad, darparodd y goruchwylydd bydwragedd SBAR ar sut yr oeddent wedi ymgysylltu â Phrifysgol Abertawe fel un o'u Sefydliadau Addysg Uwch (SAU). Roedd yr adroddiad SBAR yn cynnig manylion nifer o weithgareddau yr oedd y goruchwylydd bydwragedd wedi gallu eu cynnig i sicrhau bod myfyrwyr dan hyfforddiant yn gyfarwydd â chysyniad a phwysigrwydd goruchwyliaeth i baratoi ar gyfer cofrestriad fel bydwraig. Roedd nifer y cyfleoedd i gael profiad o oruchwyliaeth ar waith yn cynnwys nifer o gyflwyniadau goruchwylwyr bydwragedd i'r sesiynau dysgu yn y brifysgol a bydwragedd dan hyfforddiant yn cael eu hannog i fynychu Adolygiadau Goruchwyliaeth Blynyddol grŵp gyda'u mentoriaid. Nid oedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi gallu cynnig tystiolaeth o'r un lefel o ymgysylltiad ar gyfer Prifysgol De Cymru, ac nid oedd bydwragedd dan hyfforddiant o'r SAU hwn yn gallu disgrifio eu hamlygiad i oruchwyliaeth yn ystod yr ymweliad archwilio.

**Y broses ymchwilio**

Cynhaliwyd neu cwblhawyd saith ymchwiliad goruchwylwyr bydwragedd yn ystod y cyfnod o flwyddyn o 1 Awst 2014 i 1 Awst 2015. Bu pedwar digwyddiad cyn 4 Awst 2014, a hysbyswyd y tîm goruchwylwyr bydwragedd amdanynt o fewn y mis cyntaf o gyflwyno'r model newydd. Darparodd y tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol dystiolaeth gadarn o'r mesurau y maent yn eu cymryd i sicrhau y cynhelir ymchwiliadau goruchwylwyr bydwragedd lleol o fewn y cyfnod o 45 diwrnod. O'r saith ymchwiliad a gynhaliwyd, roedd pump o'r rhain wedi cael eu cwblhau o fewn 45 diwrnod. Roedd y ddau a oedd angen mwy na 45 diwrnod yn ymwneud â salwch bydwraig neu'r teulu. Codwyd yn ystod yr ymweliad archwilio y byddai'r bwrdd iechyd yn gwerthfawrogi pe bai cerdyn sgorio tri misol yr AGLI yn cynnwys gwybodaeth benodol ar gyfer prydlondeb y broses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd, yn hytrach nag adlewyrchu sefyllfa Cymru gyfan.

Roedd y bwrdd iechyd a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd yn gallu cynnig tystiolaeth o'r pwyslais ar gau'r cylch o'r broses ymchwilio gydag adolygiad rhagweithiol o'r gwersi a ddysgwyd mewn cyfarfod uwch fydwragedd a goruchwylwyr bydwragedd misol. Roedd rhyngwyneb cryf â'r tîm llywodraethu a'r cyfeiriad teithio yn cysylltu'r broses goruchwylwyr bydwragedd gyda gweithdrefnau a arweinir gan gyflogaeth. Defnyddiodd y tîm goruchwylwyr bydwragedd y paratoad ar gyfer yr ymweliad archwilio i sicrhau bod yr holl gofnodion ar gyfer ffurflenni gweithredu myfyriol, cynlluniau gweithredu lleol a rhaglenni arfer yr AGLI wedi cael eu lanlwytho i gronfa ddata'r AGLI.

## 3.4 Arfer nodedig ac arloesol

- Mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd yn darparu adroddiad themâu a thueddiadau o'r broses Adolygiadau Goruchwylio Blynyddol i'r Pennaeth Bydwreigiaeth, uwch-fydwragedd a bydwragedd. Ystyriwyd bod hwn yn arfer nodedig y gall y tîm goruchwylwyr bydwragedd ei rannu ledled Cymru.

- Roedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi bod yn arloesol o ran llunio sesiwn ddysgu ar gyfer y sesiwn hyfforddiant gorfodol flynyddol lle ystyriwyd cwyn gan bob bydwraig a sut y mae'r gwersi i'w dysgu yn cyd-fynd â Chod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015). Cydnabuwyd hwn fel dull dysgu gwerthfawr y dylid ei rannu gyda goruchwylwyr bydwragedd eraill ledled Cymru.

- Roedd y tîm goruchwylwyr bydwragedd wedi llunio rhestr wirio cyfeiriadau gweledol ar y gwersi i'w dysgu o adroddiad Kirkup a sut y gellid rhoi sicrwydd nad oedd yr un problemau'n bodoli'n lleol. Cydnabuwyd hyn fel dull syml o gyfleu'r negeseuon allweddol o Kirkup yn gyflym.

- Mae'r tîm goruchwylwyr bydwragedd yn darparu crynodeb o'r holl ddigwyddiadau a gwersi i'w dysgu o ymchwiliadau goruchwylwyr bydwragedd yn y cyfarfod arweinwyr a mwy misol.

I grynhoi, mae'r archwiliad blynyddol o oruchwyliaeth yn BIPABM wedi dangos bod holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi'u "Bodloni".

**Meysydd i'w gwella**

Nododd yr ymweliad archwilio'r meysydd canlynol lle gallai datblygiad pellach wella ansawdd ac effeithiolrwydd goruchwyliaeth:

- Gwefan y bwrdd iechyd i gynnwys dolen i'r daflen defnyddwyr "Ydyn ni'n Esgor ar Wasanaeth Da?"
- Hoffai goruchwylwyr bydwragedd newydd a rota barhau i fanteisio ar hyfforddiant a datblygiad strategol.
- Cryfhau cysylltiadau â Phrifysgol De Cymru i fodloni'r datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer bydwragedd dan hyfforddiant.
- Goruchwylwyr bydwragedd i gefnogi'r agenda ailddilysu'n ymarferol.

Amlygodd yr ymweliad archwilio feysydd i'r AGLl eu hystyried:

- Effeithiolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth weinyddol bresennol i oruchwylwyr bydwragedd
- Gwerth y digwyddiad datblygiad proffesiynol parhaus blynyddol gan Bond Solon ar gyfer ysgrifennu adroddiadau ymchwilio
- Pa un a ddylai'r cerdyn sgorio tri misol gynnwys gwybodaeth benodol i'r bwrdd iechyd ar gyfer prydlondeb y broses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd, yn hytrach na sefyllfa Cymru gyfan
- Y gwerth o rai o'r goruchwylwyr bydwragedd presennol yn aros o fewn y model yn hwy na'u cyfnod rota a drefnwyd o 18-24 mis i gynnig cefnogaeth ac arbenigedd ar gyfer y cyfnod pontio

## 4 Casgliad

Mae'r AGLI yn ddiolchgar i holl oruchwylwyr bydwragedd y gorffennol a'r presennol am eu mewnbwn a'u hymroddiad i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol a'r cyfraniad y mae goruchwylwyr bydwragedd yn ei wneud at gefnogi bydwragedd i gefnogi menywod. Rydym o'r farn y gall y model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru, a ddarperir gan dîm o oruchwylwyr bydwragedd sydd â goruchwyliaeth fel eu hunig swyddogaeth, ddim ond fod er gwell. Ers cyflwyno'r model newydd, bu canlyniadau gwell o ran cwblhau ymchwiliadau, mwy o gydymffurfiad â'r broses adolygiadau goruchwylio blynyddol a llwyddiannau, a chafwyd llawer o adborth cadarnhaol gan fydwragedd a hynny er gwaethaf y ffaith y bu rhai agweddau negyddol gan rai am ba mor llwyddiannus fyddai'r prosiect.

Nodwyd yn gyson bod y tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol yn hynod amlwg, hygyrch a hawdd mynd ato. Mae'n amlwg eu bod wedi ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn gwneud cyfraniadau rhagorol at agenda Cymru gyfan. Mae'r broses archwilio flynyddol yn dyst i lwyddiannau BIPABM yn ystod y flwyddyn. Ceir nifer o feysydd o arfer nodedig y mae'r tîm archwilio wedi'u hargymell ac y dylai'r tîm goruchwylwyr bydwragedd eu rhannu fel arfer da ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y sesiwn ddysgu lle defnyddir Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ddysgu o gŵyn, dogfen grynhoi i drafod argymhellion adroddiad Kirkup yn y broses adolygiadau goruchwylio blynyddol, a'r trafodaethau misol rheolaidd ar gyfer gwersi a ddysgwyd gydag uwch-fydwragedd. Mae'r tîm archwilio wedi annog y bwrdd iechyd a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd i ystyried arddangos y llwyddiannau hyn yn nigwyddiadau gwobrwyo a chydnabod cadeirydd y bwrdd iechyd.

Nid oes amheuaeth mae'r her fwyaf i'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth statudol ar draws y DU fydd cynnal y momentwm a'r ymrwymiad i'r swyddogaeth tra bod newid deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael effaith. Mae'r AGLI yng Nghymru o'r farn ei fod mewn sefyllfa gryfach er nad ydym yn hunanfodlon, gan gydnabod y bydd angen i ni weithio'n galed i gadw goruchwylwyr bydwragedd yn y swyddogaeth wrth i gyfleoedd eraill godi. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod gennym dîm o ansawdd uchel a ymunodd â'r model gan ei fod eisiau gwneud gwahaniaeth i fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, ond hefyd i gydweithwyr bydwreigiaeth a allai fod yn wynebu ad-drefnu sylweddol yn ystod y misoedd nesaf.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae'r AGLI wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda phenaethiaid bydwreigiaeth a chynrychiolwyr gweithle ym mhob bwrdd iechyd ledled Cymru i alinio proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd, lle'n bosibl, gyda phrosesau ymchwilio byrddau iechyd. Bydd hyn yn cefnogi ymchwiliadau teg a phrydlon sy'n sicrhau diogelwch y cyhoedd ac ailgyflwyno arfer bydwreigiaeth lle nodir problemau. Mae'r cyfeiriad teithio hwn yn gam ymlaen i rannu'r sgiliau a'r

arbenigedd o broses ymchwilio'r goruchwylwyr bydwragedd. Blaenoriaeth allweddol arall fydd proses llywodraethu gwybodaeth gadarn ar gyfer storio cofnodion goruchwylwyr bydwragedd yn ddiogel, yn enwedig y broses ymchwilio y mae'n ofynnol ei harchifo am 25 mlynedd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r tîm presennol o oruchwylwyr bydwragedd i ddangos ymhellach bod goruchwyliaeth yn adnodd gwerthfawr i'r proffesiwn bydwreigiaeth. Caiff canfyddiadau'r archwiliad ac elfennau allweddol y model eu defnyddio i ddatblygu model goruchwylio'r dyfodol y tu allan i ddeddfwriaeth reoleiddio, a fydd yn canolbwyntio ar ddimensiynau cefnogaeth, datblygiad ac arweinyddiaeth y swyddogaeth oruchwylio.

**Atodiad A**

# AGLl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen Archwiliad Blynyddol o Safonau ar gyfer Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad:** **20 a 21 Hydref 2015**

**Lleoliad:** **Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015 – Ysbyty Castell-nedd Port Talbot**
**Dydd Mercher, 21 Hydref 2015 – Ysbyty Tywysoges Cymru**

<table>
<tr><th colspan="4">Ysbyty Castell-nedd Port Talbot – Diwrnod 1<br>Ystafell Grefft Cleifion AM</th></tr>
<tr><th>Rhif</th><th>Amser</th><th colspan="2">Gweithgaredd</th></tr>
<tr><td>1</td><td>9.30am</td><td colspan="2">Cyrraedd a Phaned</td></tr>
<tr><td>2</td><td>10am</td><td colspan="2">Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLl<br><br>Cyflwyniad Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i nodi diben proses archwilio goruchwyliaeth 2015-16 a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol wedi'i gyflwyno gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>Gwahoddwyd: Y Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth ac Uwch Fydwragedd<br>Cyfarwyddwr Clinigol<br>Arweinwyr Bwrdd Iechyd a Llywodraethu Mamolaeth/Risg<br>Bydwraig Arweiniol dros Addysg<br>Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth/cyswllt y CIC ar gyfer gwasanaethau mamolaeth<br>Cynrychiolwyr Gweithle<br>Darpar Oruchwylwyr Bydwragedd a Myfyrwyr Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd</td></tr>
<tr><td>3</td><td>10.30am</td><td colspan="2">Cyflwyniad trosolwg 15 munud a bwrdd stori gan oruchwylwyr bydwragedd lleol yn cynnwys:<br><br>1. Crynodeb o gynnydd o ran darparu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2015-2016<br>2. Enghreifftiau o arfer da a llwyddiannau'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol<br>3. Enghreifftiau o ddysgu'r gwersi/cau'r cylch o ymchwiliadau goruchwylio<br>4. Meincnodi yn erbyn gwersi a ddysgwyd o Guernsey a Kirkup<br><br>15 munud o Gwestiynau ac Atebion</td></tr>
<tr><td>4</td><td>11.00am</td><td colspan="2">Egwyl</td></tr>
<tr><td>5</td><td>11.15am</td><td><u>Tîm Adolygu A</u> yn cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio Cyswllt</td><td><u>Tîm Adolygu B</u> yn cyfarfod â Chyswllt y CIC</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6** | 11.45am (1 awr) | Adolygiad o gerdyn sgorio Ch2 gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylwyr bydwragedd lleol (Tîm Adolygu A) | |
| | 11.45am | Tîm Adolygu B yn cyfarfod â'r Arweinydd Llywodraethu Mamolaeth a'r Fydwraig Risg | |
| | 12.15pm | Tîm Adolygu B yn cyfarfod â swyddogaethau cyswllt ar gyfer addysg | |
| | 12.45pm | Tîm Adolygu A yn cyfarfod â thair bydwraig | |
| | 13.15pm | **Cinio** | |
| **Diwrnod 1 – Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015 – PM**<br>**Clinigol i ddilysu tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol** | | | |
| | 2 pm | Tîm Adolygu A i adolygu'r dystiolaeth | Tîm Adolygu B yn ymweld â Chanolfan Enedigaeth a Chlinig Cynenedigol Castell-nedd Port Talbot a chwrdd â'r Fydwraig Ymgynghorol |
| | 3.15pm | **Paned** | **Paned** |
| | 3.30 tan 5pm | Timau adolygu yn ymgynnull i ystyried safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac arfer nodedig | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysbyty Tywysoges Cymru – Diwrnod 2**<br>**Dydd Mercher, 21 Hydref 2015**<br><br>**Ystafell Seminar Mamolaeth – AM** | | | |
| **1** | 9.00am | **Cyrraedd a Phaned** | |
| | 0930 | Tîm Adolygu B yn cyfarfod Carolyn Williams, Bydwraig Arweiniol | Tîm Adolygu A yn cyfarfod â Dawn Apsee, Bydwraig Arweiniol Intrapartum |
| | 10.30am | Tîm Adolygu A gyda Myfyriwr Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd | Tîm Adolygu B Ymweliad â Chlinig Cynenedigol |
| **Paned** | | | |
| | 11.15 am | Tîm Adolygu A yn cyfarfod â dwy fydwraig Band 7:<br><br>- Cydlynydd y Ward Esgor<br>- Prif Nyrs Ward 12 | Tîm Adolygu B yn cyfarfod â phedair bydwraig:<br><br>- 2 fydwraig ysbyty<br>- 2 fydwraig gymuned |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 11.45am | Tîm Adolygu A yn cyfarfod â Bydwragedd dan Hyfforddiant (Prifysgol De Cymru) | Tîm Adolygu B yn cyfarfod â gwirfoddolwyr/rhieni |
| | 12.15pm | Cinio | |
| | 1.15pm | Timau Adolygu'r AGLI i grynhoi'r canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer adroddiad | |
| | 2 pm | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a goruchwylwyr bydwragedd gyda throsolwg o'r diwrnod a'r camau nesaf | |

## Atodiad B

**Rhestr o Gyfranogwyr yn y broses Archwilio Blynyddol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

**Cyfarwyddwr Nyrsio Cyswllt** – Cathy Dowling

**Pennaeth Bydwreigiaeth** – Jane Phillips

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth** – Lesley Owen

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth –** Carolyn Williams

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth –** Carole Christie

**Bydwraig Ymgynghorol –** Sarah Fox

**Arweinydd Llywodraethu** – Susan Williams

**Bydwraig Risg / Llywodraethu –** Kathy Greaves

**Datblygiad Ymarfer / Hwyluswyr** – Louise Williams a Nicola Court

**Cyswllt Mamolaeth y Cyngor Iechyd Cymuned** – Margaret Buckley

**Aelodau'r Tîm Goruchwylwyr Bydwragedd**

Karen Evans
Wendy Sunderland Evans
Becky Lewis
Kathy Greaves (darpar oruchwylydd bydwragedd)
Bryany Tweedle Dale (goruchwylydd bydwragedd dan hyfforddiant)

**Cyfarfuwyd â nhw gan dîm yr AGIl**

Bydwragedd ac arweinwyr intrapartum yn ardaloedd clinigol Castell-nedd a Phen-y-bont ar Ogwr

Bydwragedd dan Hyfforddiant

**Ymddiheuriadau:** Rory Farrell, Cyfarwyddwr Nyrsio
Kath Harbisher, Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth